

Pwyllgor Cyngor Cymuned Ysbyty Ifan 13/05/21

Presennol:

Dafydd Jones, Idris Roberts, Medwyn Hughes, Alun Davies, Gwyn Davies Arwel Jones Ellis

Ymddiheuriadau: Meredydd Ellis, Cyng Wyn Jones

Cod Ymddygiad:

_Datgan diddordeb neu gysylltiad mewn unrhyw un o eitemau'r agenda. Neb

Daeth Bethan Trenchard i'r cyfarfod gyda mwy o fanylion am Hafan Ifan

Cofnodion

Darllenwyd y cofnodion a'i cael yn gywir Arwel J Ellis yn cynnig ac Alun Davies yn cefnogi.

Materion yn codi o'r cofnodion

Cafwyd gwybodaeth fod CBSC am osod y polyn pêl-fas sydd wedi ei brynnu gan gyngor Cymuned Ysbyty Ifan yn y cae chwarae.

Trafodwyd a phenderfynnwyd gweinyddu yr hyn y mae Hafan Ifan yn ei ofyn, sef bod y Cyngor Cymuned yn sefyll yn y bwlch ac yn pontio rhwng Hafan Ifan a chymdeithasau eraill yn yr ardal pe tai y fenter yn fethiant.

Neb o'r cynghorwyr angen costau

Pwyllgor Blynnyddol

Croesawodd Dafydd P Jones Arwel Jones Ellis i'r gadair gan ddiolch yn fawr am y cydweithrediad gafodd ar hyd ei dymor

Cymerodd Arwel Jones Ellis y gadair a diolchodd i Dafydd Jones am ei waith gydol y flwyddyn

Is Gadeirydd Idris Roberts

Taflen ariannol

Rhannwyd y daflen ariannol ac aethpwyd trwyddi yn fanwl Dafydd Jones yn cynnig ei bod yn gywir gyda Alun Davies yn cefnogi . (A1)

Edrychwyd dros y rheolau cyllid a chael fod popeth mewn trefn.

Mabwysiadwyd asesiad risg a'r rheolau sefydlog.

Edrychodd y Cynghorwyr dros yr adolygiad blynnyddol o effeithiolrwydd y system fewnol, popeth yn ei le yma.

Trafodwyd polisi gweddillion yr arian sydd yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn a chael ei fod yn gywir, ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf sydd yn digwydd yn flynyddol.

Polisiau

Edrychwyd trwy y polisiau a'l diweddarau

Mabwysiadwyd y còd Ymddygiad

Biliau l'w talu

<u>Ysweiriant Zurich</u>	<u>£257.60</u>	<u>100527</u>
<u>DoodleIT</u>	<u>£150.00</u>	<u>100528</u>
<u>Cyflog clerc</u>	<u>£250.00</u>	<u>100529</u>
<u>J Llywelyn Hughes</u>	<u>£342.00</u>	<u>100530</u>

Gohebiaeth

Toiledau y Neuadd; CBSC yn barod i helpu gyda cynlluniau i agor toiledau y Neuadd i'r cyhoedd. Angen edrych ar y goeden sydd tu allan i'r toiledau presennol.

Llythyr i law gan un o drigolion yr ardal yn pryderu nad yw y toiledau cyhoeddus ar agor ac mae llawer o bobl yn cael ei siomi o weld nad oes modd ei defnyddio.

Cysylltu gyda CBSC i edrych y ffordd ymlaen.

Hefyd pryderon fod ffôs wedi cau ger yr afon. Gadael i Gyngor Conwy wybod am hyn hefyd

Sôn wrth yr ysgol am y cwt pren yn y cae chwarae.

Symud y fanic bicnic bren sydd yn y cae chwarae oddi yno.

Materion Eraill

Mainc ger y bont angen sylw; Byddai yn rhatach prynu mainc newydd oherwydd cyflwr yr un bresennol Holi am brisiau

Sgip i'r ardal y mis nesa, a hysbysu yn yr Odyn ac yn lleol

Angen blodau i'r pentref £40 ar gael at hyn

Gofyn i OG Evans dorri y gwair y fynwent ac o amgylch y Neuadd

Ffordd o Bncefn am gwm Eidda, mae landrovers wedi mynd i'r ffos gan achosi i'r ffos gael ei chau, gofyn i'r cyngor ddod yno i'w agor.

Diolch i adran briffyrdd y Cyngor am y gwaith da y maent wedi ei wneud ar ffodd Cwm Gylchedd a thro Plas Ucha

Gofyn i'r Ymddiriadolaeth Genedlaethol edrych ar ffynnonau yr ardal sef ffynnon Jiwibili, Ffynnon y Penrhyn a Ffynnon Eidda

Dyddiad y pwyllgor nesa 8/7/21